## Canllawiau Camau Creadigol i sefydliadau

Enw – rhowch enw eich sefydliad

Cynnig prosiect – rhowch grynodeb o'ch cais a'r rheswm drosto. Yn benodol, beth fydd yr arian yn talu amdano a sut bydd yn datblygu busnes eich sefydliad?

Cefndir a rhwystrau – beth yw cefndir eich sefydliad, eich stori a'ch profiadau yn y celfyddydau hyd yn hyn? Mae'n gyfle hefyd i ddisgrifio'r rhwystrau rydych chi a'ch sefydliad wedi'u hwynebu. Beth sydd wedi eich atal rhag cyrraedd eich targed? Pam nawr yw'r amser ichi gael yr arian? Sut y gall yr arian eich helpu i gyrraedd eich targed?

Manylion y prosiect – rhowch ragor o wybodaeth am eich cais. Manylwch inni allu deall beth byddwch yn ei wneud gyda'r arian. Byddwch yn glir am eich bwriad a'r canlyniadau.

Os ydych yn gwneud cais am arian Ail neu Drydydd Cam, dyma'ch cyfle i nodi'r gwersi a oedd o gael arian o'r blaen a pha effaith maent wedi'i chael ar eich cais presennol. Sut byddwch yn defnyddio'r gwersi i ddatblygu eich sefydliad?

Cynaliadwyedd – os ydych yn gwneud cais am arian Ail neu Drydydd Cam, rhowch eich syniadau a'ch cynlluniau i wneud eich sefydliad yn fwy cynaliadwy. Ydych wedi nodi ffyrdd o greu incwm neu weld cyfleoedd ariannu eraill? Rydym yn gwybod y gall pethau newid ond hoffem weld sefydliadau'n cynllunio ar gyfer yr hir dymor. Dyma'ch cyfle i gynnwys cynlluniau am bartneriaethau hirdymor neu gynlluniau i dyfu eich sefydliad.

Y galw – os ydych yn gwneud cais am arian Ail neu Drydydd Cam, rhowch dystiolaeth o'r galw am eich gwaith, fel:

- astudiaethau achos
- tystlythyrau gan eich cymuned neu'ch cynulleidfa
- canmoliaeth gan y beirniaid
- effaith barhaol eich gwaith

Rydym am ariannu sefydliadau sy'n gwasanaethu eu cymuned a'u sector.

Amserlen – rhowch amserlen fanwl o'ch gweithgarwch gyda dyddiadau ac enwau'r bobl neu sefydliadau y byddwch yn cydweithio â nhw. Rydym yn deall bod pethau'n gallu newid, ond rhowch y mwyaf o wybodaeth sydd gennych.

Sut byddaf yn gwybod os ydw wedi cyflawni fy amcanion? – dyma'ch cyfle i ddangos sut y bydd prosiect llwyddiannus yn cyflawni eich amcanion. Beth yw'r arwyddion penodol y bydd eich cynnig wedi cyflawni eich amcanion neu wedi datblygu eich sefydliad? Manylwch. Rydym yn deall nad yw pob twf yn hawdd i'w fesur, ond bydd yn gymorth i'r ddau ohonom os ydych yn glir am sut olwg fydd ar lwyddiant.